

# Dadansoddiad o Baneli Atgyfeirio awdurdod lleol a/neu ymarferion i ddysgwyr sy'n cael mynediad at ddarpariaeth EOTAS

---

Mae'r safbwyntiau a roddir yn yr adroddiad hwn yn perthyn i'r ymchwilyr a'r ymatebwyr ac nid Llywodraeth Cymru o reidrwydd.

Tîm Ymchwil:

Dr April May Kitchener

Athro Alex Gray  
Qays Stetkevch  
Liz Williams

admin@siaradda.org.uk

Dylid cyfeirio ymholiadau ynghlŷn â'r ddogfen hon at:

Y Gangen Lles Disgyblion/Pupil Wellbeing Branch  
Y Gyfarwyddiaeth Addysg/ The Education Directorate  
Llywodraeth Cymru/Welsh Government

E-bost: [wellbeingshare@wales.gsi.gov.uk](mailto:wellbeingshare@wales.gsi.gov.uk)

## **Cydnabyddiaethau**

Hoffai Siarad Da gymryd y cyfle hwn i ddiolch i bawb a gwblhaodd holiaduron a'r rhai a roddodd o'u hamser i siarad â ni.

## CYNNWYS

### TUDALEN

Crynodeb o'r prif bwyntiau	4
A yw pethau wedi newid yn wirioneddol	5
1. Cefndir / Trosolwg	8
2. Deddfwriaeth bresennol	9
3. Methodoleg	10
4. Ymatebion i'r Ymgynghoriad	15
4.1 A oes yna ymarferion atgyfeirio safonol ar gyfer darpariaeth EOTAS ledled Cymru?	15
4.2 Pa wybodaeth a ofynnir amdano ar hyn o bryd ar gyfer atgyfeiriadau EOTAS?	23
4.3 Pa ddeilliannau disgyblion mae asiantaethau atgyfeirio yn gofyn amdanynt?	24
4.4 Sut mae'r wybodaeth gan atgyfeirwyr yn cynnig cyfleoedd ar gyfer adnabod llwyddiant myfyrwyr?	25
4.5 Pa fanteision neu anfanteision sy'n bodoli wrth ddatblygu Ffurflen atgyfeirio EOTAS gyffredin?	27
5. Casgliadau Terfynol	29
6. Datrysiadau Ymarferol	31
6.1 Opsiwn Un	31
6.2 Opsiwn Dau	31
6.3 Opsiwn Tri	32
7. Offer Ymarferol	33
Tabl 1: Cyfranogwyr Ymchwil	13
Blwch 1: Cylch Gorchwyl Panel Atgyfeirio EOTAS	19
Blwch 2: Manteision ac anfanteision System Un	20
Blwch 3: Manteision ac anfanteision System Dau	20
Llyfryddiaeth	36
Atodiad I	39
Atodiad II	40
Atodiad III	42

## CRYNODEB

Pwyntiau allweddol:

- Mae peth tebygrwydd rhwng ymarferion mewn awdurdodau lleol (ALI) ledled Cymru wrth reoli paneli EOTAS, ond yn gyffredinol mae dull pob ALI yn unigryw ac yn adlewyrchu profiadau proffesiynol a gwybodaeth y bobl sy'n arwain y gwaith o wneud penderfynu EOTAS.
- Nid yw dros hanner yr awdurdodau yn gwahodd asiantaethau y tu allan i faes addysg yn rheolaidd, fel swyddogion gwasanaethau cymdeithasol, troseddau ieuencid neu wasanaethau iechyd gwladol (GIG), i fynychu paneli atgyfeirio, er eu bod yn adrodd bod llawer o'r disgyblion a atgyfeirir ar gyfer darpariaeth EOTAS wedi'u cysylltu â'r asiantaethau hynny.
- Mae ALI Cymru yn defnyddio dau fath o ymarferion atgyfeirio EOTAS: un sy'n fwy addas i'r sefydliad (ALI) ar draul deilliannau dysgwyr, e.e. paneli lluosog, weithiau yn anffurfiol, mwy nag un system gofnodi, dyddiaduron proffesiynol ar gyfer cyfarfod. Mae'r llall yn fwy manteisiol i'r dysgwr, un panel amlasiantaethol, un system gofnodi, dyddiadau panel yn cael eu cytuno'n flynyddol.
- Mae trafodaethau amlasiantaethol a gwneud penderfyniadau mewn cyfarfodydd panel yn bwysig gan eu bod yn cynnig golwg fwy strategol ar y materion a wyneba ysgolion, asiantaethau eraill a chymunedau o fewn awdurdod ac yn arwain at well penderfyniadau'n cael eu gwneud.
- Tra bod yna amrywiaethau mewn ymarferion atgyfeirio panel ledled Cymru ac mewn ALI yn achlysurol, nid yw'r amrywiaethau hyn yn cael eu gyrru gan gyfyngiadau ariannol ond yn hytrach gan brofiadau a gwybodaeth y bobl broffesiynol sy'n arwain prosesau gwneud penderfyniadau EOTAS.
- Byddai cylch y gorchwyl y rhai sy'n mynychu paneli atgyfeirio EOTAS yn cael ei groesawu gan yr ALI.

## A YW PETHAU WEDI NEWID YN WIRIONEDDOL?

Yn y nawdegau cynnar, yr un pryd â dyfodiad y cwricwlwm cenedlaethau a thablau cynghrair, cafwyd cynnydd aruthrol yn y nifer o fyfyrwyr a eithriwyd o ysgolion prif ffrwd.

Yn Lloegr yn unig cododd y niferoedd hynny bob blwyddyn o 3,000 yn 1990 i 11,000 yn 1994, gydag amcangyfrif o 12,000 yn ystod y flwyddyn ysgol 1995-1996 (Fisher, 1996)<sup>1</sup>. Cododd hyn bryderon nad oedd llawer o bobl ifanc yn cael cynnig addysg effeithiol nac ychwaith yr un cyfleoedd â'u cyfoedion mewn ysgolion prif ffrwd.

Yn draddodiadol defnyddiwyd 'unedau oddi ar safle' i gefnogi myfyrwyr a eithriwyd yn barhaol o ysgolion prif ffrwd ac ar gyfer y myfyrwyr hynny a oedd yn anfynychwyr hirdymor. Yn yr 1970au cynyddodd yr 'unedau oddi ar safle' hyn yn sylweddol mewn nifer. Defnyddiwyd 'unedau oddi ar safle' fel offeryn gan rai AALI i reoli darpariaeth addysg i fyfyrwyr 'ag anawsterau' y tu allan i ysgolion prif ffrwd. Parhaodd yr ymarfer hwn tan flynyddoedd cynnar yr 1990au. Fodd bynnag, nid oedd yr unedau hyn yn cael eu rheoleiddio.

Rhwng 1990 a 1992 cwblhaodd Arolygwyr Ysgolion ei Mawrhydi (AEM)<sup>2</sup> arolwg o ymddygiad disgyblion mewn ysgolion. Fel rhan o'r arolwg ymwelodd yr Arolygwyr ag ysgolion cynradd, uwchradd ac 'unedau oddi ar safle' mewn dros 10 AALI. Roedd gan bob un o'r unedau strwythur gwahanol o ddarpariaeth. Roedd rhai unedau'n darparu ar gyfer Cyfnod Allweddol 4 (CA4) yn unig, tra bod eraill yn darparu ar gyfer myfyrwyr o bob cyfnod allweddol. Roedd y mwyafrif o'r unedau 'oddi ar safle' ar gyfer disgyblion a oedd yn rhai anodd neu'n aflonyddus yn yr ysgolion prif ffrwd.

Cyflwynwyd y canlyniadau o'r Arolwg mewn ffordd ddi-flewyn ar dafod, gan nodi nad oedd y disgyblion yn y rhan fwyaf o'r unedau yn gweithio'n dda neu'n llwyddo'n dda yn eu gwaith. Roedd safon y gwaith yn y rhan fwyaf o'r unedau "yn dangos diffyg amlwg mewn pwrpas a her; roedd yr ysgogiad deallusol yn wan a'r gwaith yn llawer is o ran

---

<sup>1</sup> Fisher, D. (1996) Pupil Referral Units. Swydd Berkshire: EMIE

<sup>2</sup> Ffurfiwyd y Swyddfa Safonau mewn Addysg (Ofsted) dan y Ddeddf Addysg (Ysgolion) 1992.

safon nag oed a gallu'r plentyn" (Ofsted 1993 t. 5).<sup>3</sup> Ym mron i 50% o'r unedau, gwelwyd diffygion sylweddol yn safon y gwaith. Adroddwyd mai'r rheswm dros y diffygion hyn oedd diffyg cynllunio, amcanion aneglur a gwaith wedi ei osod heb ystyriaeth dda o allu'r myfyrwyr a oedd yn mynychu'r unedau.

Roedd yr Arolwg yn glir bod 'unedau' angen datblygu o ran eu cynlluniau cwricwlaidd, datblygu gwell dulliau dysgu a strategaethau a chodi disgwyliadau athrawon ynghylch llwyddiant y myfyrwyr. Yn olaf, awgrymodd yr Arolwg bod y staff a'r myfyrwyr yn yr unedau hyn yn (yn Saesneg) '**occupied an ambiguous legal twilight zone**' (Ofsted 1993): roedd y myfyrwyr yn cael eu gwasanaethu'n wael yn academaidd ac roedd staff dysgu'n cael eu hynysu, ac roedd hyn oll yn effeithio ar ddatblygiad ac ansawdd y llwyddiant academaidd.

Bu i'r Arolwg ddylanwadu'n fawr ar Ddeddf Addysg 1993 a roddodd ddyletswydd ar AALI i ddarparu ar gyfer addysg plant a phobl ifanc a oedd, am ba bynnag reswm, allan o'r ysgol. O ganlyniad, datblygwyd math newydd o ddarpariaeth a enwyd yn Unedau Atgyfeirio Disgyblion (PRUs). Datblygodd y PRUs fel un ffordd y llwyddodd yr AALI i gyflawni eu dyletswydd i'r grŵp hwn o fyfyrwyr.

Ar yr adeg, nid oedd arolwg o ddarpariaeth yn cael ei gynnal yng Nghymru. Fodd bynnag, cafwyd arolwg o ddarpariaeth addysgiadol yng Nghymru yn ystod 1994-95 (OHMCI 1996).<sup>4</sup> Ni chyfeiriodd yr adroddiad o gwbl at PRUs yng Nghymru nac at unrhyw 'ddarpariaeth oddi ar safle'. Wrth adrodd ar 'ymddygiad, disgyblaeth a phresenoldeb' nododd yr adroddiad:

*"...mewn rhai dosbarthiadau, mae cynnydd rhai disgyblion yn cael ei atal gan y lefel isel ond cyson ac annifyr a achosir gan leiafrif bach" (OHMCI 1996: 23)*

Yn 1997, cyhoeddwyd Papur Gwyn, *Llais dros Gymru*<sup>5</sup>, yn amlinellu

---

<sup>3</sup> Ofsted (1993). *Education for Disaffected Pupils*. Llundain: HMSO.

<sup>4</sup> OHMCI (Cymru) (1996). *Arolwg o Ddarpariaeth Addysgiadol yng Nghymru 1994-95*. Llundain: HMSO

<sup>5</sup> *Llais dros Gymru: Cynigion Llywodraeth y DU ar gyfer Cynulliad Cymreig Cm 3718* (London: Y Llyfrfa, 1997)

Cynigion y Llywodraeth ar gyfer refferendwm ar ddatganoli Cymreig. Yn dilyn y refferendwm, pasiwyd Deddf Llywodraeth Cymru 1998 gan Senedd y DU.

Disodlwyd Ofsted gan Estyn fel yr arolygiaeth addysg a hyfforddi dros Gymru. Ei rôl yw darparu arolygiad annibynnol a gwasanaethau cynghori ar ansawdd a safonau mewn addysg a hyfforddiant a ddarperir yng Nghymru.

Dan Adran 104 o Ddeddf Llywodraeth Cymru, mae<sup>6</sup> Estyn yn annibynnol o Lywodraeth Cynulliad Cymru ac yn cael ei ariannu ganddi. Yn ystod 1998 ac 1999, datganolwyd rhai pwerau a chyfrifoldebau penodol i Gymru gan Senedd y DU, a oedd yn cynnwys addysg a hyfforddiant yng Nghymru.

---

<sup>6</sup> <http://www.legislation.gov.uk/ukpga/1998/>

## 1.0. CEFNDIR / TROSOLWG

Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i fodloni anghenion addysg holl blant Cymru er mwyn iddynt gyflawni hyd at eu gallu. Mae Addysg ar wahân i'r hyn a ddarperir mewn ysgolion (EOTAS) yn chwarae rôl hanfodol wrth addysgu dysgwyr bregus a gellir darparu hynny drwy wahanol opsiynau sy'n cynnwys, ond heb ei gyfyngu i, unedau atgyfeirio disgyblion (PRUS), sefydliadau addysg bellach ac tiwtora o gartref neu addysg yn y gweithle.

Mewn ymateb i'r pryderon ynghylch gwasanaethau EOTAS a godwyd yn yr adroddiadau gan

Estyn, Comisiynydd Plant Cymru a Phrifysgol Caeredin, sefydlodd Llywodraeth Cymru grŵp Gorchwyl a Gorffen EOTAS, a gadeiriwyd gan gyn Brif Arolygydd Estyn, Ann Keane. Rhoddodd grŵp Gorchwyl a Gorffen EOTAS ystyriaeth i argymhellion o'r adroddiadau a datblygu datrysiadau ymarferol i'w rhoi ar waith.

Un maes a amlygwyd gan y grŵp Gorchwyl a Gorffen EOTAS fel un a oedd angen dadansoddiad oedd yr ymarferion neu fecanweithiau a ddefnyddiwyd gan awdurdodau lleol wrth atgyfeirio dysgwyr i sefyllfa EOTAS.

Ym mis Chwefror 2017, comisiynwyd Cwmni Budd Cymunedol Siarad Da i gynnal adolygiad o baneli atgyfeirio awdurdod lleol a/neu ymarferion i ddysgwyr sy'n cael mynediad at ddarpariaeth EOTAS ledled Cymru. Llwyddodd y canlyniadau o'r adolygiad i helpu i adnabod datrysiadau ymarferol i helpu i ymdrin ag unrhyw bryderon a amlygwyd yn ystod y gwaith dadansoddi.



## 2.0. DEDDFWRIAETH BRESENNOL

Mae Adran 19 Deddf Addysg 1996 yn rhoi dyletswydd ar awdurdodau lleol i wneud trefniadau ar gyfer y ddarpariaeth EOTAS addas i ddysgwyr nad ydynt bellach yn medru mynychu ysgol am ba bynnag reswm, gan gynnwys (ond heb ei gyfyngu i) salwch neu ddiarddeliad.

Mae Deddf Addysg 2002<sup>7</sup> (fel y'i diwygiwyd gan Fesur Dysgu a Sgiliau (Cymru) 2009)<sup>8</sup> yn rhoi'r grym i gyrff llywodraethu gomisiynu gwasanaethau addysgiadol allanol.

---

<sup>7</sup> <http://www.legislation.gov.uk/ukpga/2002/32>

<sup>8</sup> [www.legislation.gov.uk/mwa/2009/1/section/35](http://www.legislation.gov.uk/mwa/2009/1/section/35)

### 3.0. METHODOLEG

Mae'r Adran hon yn amlinellu'r dulliau a ddefnyddiwyd i gasglu data a alluogodd Siarad Da i gynnal dadansoddiad o ymarferion cofrestru disgyblion gan awdurdod lleol ar gyfer dysgwyr sy'n defnyddio darpariaeth PRU ac EOTAS.

Nod y prosiect hwn oedd cynhyrchu adroddiad a oedd yn ystyried barn a chanfyddiadau rhanddeiliaid allweddol, a rhoi dadansoddiad o ymarferion atgyfeirio presennol EOTAS a weithredwyd gan awdurdodau lleol.

Mae'r adroddiad hwn hefyd yn amlygu'r manteision a'r anfanteision o ymarferion presennol ac yn cynnig datrysiadau ymarferol i'w defnyddio mewn strategaethau cenedlaethol. Bydd y datrysiadau ymarferol hyn yn canolbwyntio ar ganlyniadau cadarnhaol ar gyfer y dysgwr gan felly hyrwyddo dull mwy cydlynol i awdurdodau lleol fedru cefnogi dysgwyr sy'n cael EOTAS.

Oherwydd y cyfranogwr penodol, a chyfyngiadau logistaidd sydd yn gysylltiedig â hyd a lled yr astudiaeth hon, rhaid dwyn maint a sgôp y dadansoddiad i ystyriaeth wrth adolygu a dadansoddi'r data. Gall sampl rhy fach atal y canlyniadau rhag cael eu casglu, tra gallai sampl rhy fawr chwyddo'r gwahaniaethau a amlygir, gan bwysleisio gwahaniaethau ystadegol nad ydynt yn glinigol berthnasol.

Ein nod felly oedd dull a oedd yn ymchwilio yn y modd mwyaf effeithlon: Mae'r data a gynhyrchir yn ddibynadwy; mae'r adnodd a fuddsoddir mor gyfyng â phosibl, ond yn cydymffurfio ag egwyddorion moesol.

Tra bod astudiaethau mwy yn cynhyrchu cyfyngau hyder cul (h.y. canlyniadau mwy cywir), gellir cynnal astudiaethau llai, fel ein hastudiaeth ni, o fewn cyfnod amser byrrach. Gyda llai o bynciau gall yr ymchwilyr ganfasio ac ymgysylltu a threulio mwy o amser gyda chyfranogwyr unigol.

Y brif broblem gydag astudiaethau bach yw dehongli'r canlyniadau. Gall astudiaethau bach gynhyrchu canlyniadau cadarnhaol-ffals, neu oramcangyfrif

maint y cysylltiad. Mae'n bwysig felly cadw hyn mewn cof wrth adolygu'r canlyniadau. Oherwydd hyn, mae'n bwysig egluro y gall unrhyw ganlyniadau fod angen astudiaeth fwy i gadarnhau'r canlyniadau cyn mynd ati i weithredu ar unwaith.

Mae cyfyngiadau methodolegol possibl yr ydym wedi eu dwyn i ystyriaeth yn ystod ein hymchwil yn cynnwys:

- Maint y sampl (Noder bod maint y sampl yn llai perthnasol mewn ymchwil ansoddol)
- Diffyg data ar gael a/neu ddata dibynadwy
- Diffyg astudiaethau ymchwil blaenorol ar y pwnc
- Y mesurau a ddefnyddir i gasglu'r data
- Data hunan-adroddol (Yn ystyried cof dewisol a thelesgopio).

Mae tair prif anfantais yn gysylltiedig yn aml â samplau bach, ac rydym wedi llwyddo i oresgyn pob un ohonynt i raddau amrywiol. Dyma nhw:

#### Anfantais 1: Amrywioldeb

- Mae amrywioldeb yn cael ei bennu gan wyriad safonol y boblogaeth; gwyriad safonol sampl yw pa mor bell yw gwir ganlyniadau'r arolwg o ganlyniadau'r sampl a gasglwyd.

Gan ystyried hynny, gwelir bod y canfyddiadau presennol yn ddefnyddiol ac yn gywir gan fod pob Awdurdod Lleol Cymreig wedi cymryd rhan ac wedi rhoi mewn bwn i'n hymchwil.

#### Anfantais 2: Tuedd y Cwmpas

- Mae maint sampl bach hefyd yn effeithio ar ddibynadwyedd canlyniadau'r arolwg gan ei fod creu amrywioldeb uwch, a allai arwain at duedd; yr achos mwyaf cyffredin o duedd yw canlyniad diffyg ymateb. Ceir diffyg ymateb pan nad yw rhai pobl heb gael cyfle i gymryd rhan yn yr arolwg.

Unwaith eto, er gwaethaf maint cymharol fach y sampl yn ein hymchwil, llwyddom serch hynny i gyrraedd ein nod o 100% o'r nifer a gyfranogodd, gan felly sicrhau nad oedd unrhyw bryderon ynghylch tuedd y cwmpas.

### Anfantais 3: Tuedd Ymateb Gwirfoddol

- Mewn samplo arolwg, mae tuedd ymateb gwirfoddol yn digwydd pan fydd aelodau'r sampl yn wirfoddolwyr hunanddewisol, yn union fel samplau gwirfoddol.

Er roedd ein haelodau'n wirfoddolwyr, llwyddodd ein hymchwil i osgoi unrhyw bryderon ynghylch tuedd ymateb gwirfoddol drwy gynnwys ymatebion a mewnbwn gan yr holl gyfranogwyr perthnasol.

### **Casglwyd tystiolaeth dros bedwar cyfnod:**

Casglwyd y data dros bedwar cyfnod. Pwrpas defnyddio'r cyfnodau penodol oedd er mwyn casglu ymateb eang ac amrywiol i'r cwestiynau a ofynnwyd mewn amryw o ffyrdd. Efallai bod ein dull o gwestiynu wedi ymddangos yn ailadroddus, ond i sicrhau y gallem wirio cysondeb yr ymatebion unigol, aileiriwyd y cwestiynau yn y gwahanol gyfnodau.

Cyfnod Un: Cysylltodd Siarad Da â phob un o'r 22 ALI gan ofyn am gopiâu o bolisiâu neu weithdrefnau sydd ar gael i ysgolion prif ffrwd i helpu i lywio'r broses atgyfeirio – un ai fel copiâu electronig neu ar bapur. Roedd yr ymatebion yn amrywio ac felly hefyd ansawdd y deunydd a gyflwynwyd:

- Ymatebodd pob Awdurdod Lleol i geisiadau am wybodaeth,
- roedd rhai ALI yn wylidwrus ynghylch rhannu gwybodaeth,
- nid oedd dros 60% (13) o'r ALI yn medru darparu copiâu electronig neu ar bapur o wybodaeth yn llywio'r broses atgyfeirio i ysgolion ac asiantaethau eraill yn gweithio â disgyblion a atgyfeirir i banel EOTAS.

Cyfnod Dau: Cynhaliwyd cyfweiliadau lled strwythurol wyneb yn wyneb ac ar y ffôn gyda rhanddeiliaid allweddol. Roedd y rhain yn cynnwys: Arweinwyr Awdurdod Lleol EOTAS a PRU, staff PRU, darparwyr EOTAS a gomisiynwyd, ysgolion prif ffrwd, ysgolion arbennig a staff yn gyfrifol am Systemau Gwybodaeth Rheoli (MIS).

Yr adborth o'r cyfweiliadau lled strwythurol luniodd cyfnod nesaf y casglu data. Bu iddynt hefyd ddylanwadu ar themâu'r gweithdai a strwythur yr adroddiad hwn.

Cyfnod Tri: Anfonwyd holiaduron (Atodiad I) drwy e-bost, i'r arweinwyr proffesiynol ym mhob un o'r 22 ALI. Roedd cyfradd yr ymateb yn wael; anfonwyd 27 o holiaduron i 22 o ALI, ond dim ond 12 holiadur o 10 ALI a ddychwelwyd. Cafwyd data gwerthfawr o'r holiaduron a gwblhawyd.

Cyfnod Pedwar: Trefnwyd dau weithdy: un yng Nghaerdydd a'r llall yn Llandudno. Canslwyd y gweithdy yn Llandudno oherwydd trefniadau teithio. Cynigiwyd y wybodaeth a fyddai fod wedi cael ei gyflwyno i'r rhai a gofrestrodd (9) ar gyfer gweithdy Llandudno. Cafwyd dau gais am wybodaeth a darparwyd y wybodaeth honno.

Yng ngweithdy Caerdydd, cyflwynwyd adborth ac o ganlyniadau'r drafodaeth cafwyd rhagor o ddata sydd wedi ei ymgorffori yn yr adroddiad terfynol hwn.

Tabl 1: Cyfranogwyr yr Ymchwil

<b>Cyfranogwyr a gyfrannodd i'r Ymchwil</b> <i>(ALI a gyfrannodd – 22)</i>	
Swyddogion ALI	38
Staff PRU / EOTAS	8
Staff Ysgol Prif Ffrwd	3
Staff Ysgol Arbennig	2
Darparwyr hyfforddiant	3
<b>Cyfanswm</b>	<b>54</b>

Dadansoddwyd data ansoddol o gyfweiliadau wyneb yn wyneb ac ar y ffôn ar ôl pob cyfweiliad ac ar ôl derbyn pob holiadur a gwblhawyd.

Yn ystod y cyfweiliadau wyneb yn wyneb cychwynnol dewisodd y cyfranogwyr i beidio â chael eu recordio'n ddigidol; gwnaed penderfyniad wedyn gan y tîm ymchwil na fyddai unrhyw gyfweiliadau pellach wyneb yn wyneb ac ar y ffôn yn cael eu recordio'n ddigidol. Cymerwyd nodiadau trylwyr yn hytrach. Gwnaed hyn er mwyn sicrhau y byddai cyfraniadau'r cyfranogwyr yn gyfrinachol.

Moeseq:

Roedd ein dull wedi'i gydbwysu o ran daearyddiaeth ac iaith, gyda phob un o'r rhanbarthau consortiwm wedi'u cynnwys. Siaradom â gweithwyr proffesiynol yn gweithio mewn ardaloedd gwledig, trefol, â phoblogaeth ddwys a rhai llai poblog.

Cysylltwyd ag ALI drwy e-bost neu ar y ffôn, ac eglurwyd nod yr ymchwil iddynt. Rhoddodd pawb a gafodd ei gyfweled ei ganiatâd i hynny. Roedd rhai gweithwyr proffesiynol, serch hynny, yn pryderu ynglŷn â chael eu hadnabod yn yr adroddiad, felly cytunwyd y byddai'r holl adborth yn anhysbys.

## 4.0 YMATEBION I'R YMGYNGHORIAD

### 4.1 A OES YNA YMARFERION ATGYFEIRIO SAFONOL AR GYFER DARPARIAETH EOTAS LEDLED CYMRU?

Adroddodd y rhan fwyaf o'r ALI (20) eu bod yn ceisio defnyddio proses atgyfeirio safonol<sup>9</sup>, er bod hyn yn amrywio o un ALI i'r llall ac o fewn rhanbarthau Consortia. Adroddodd yr ymatebwyr eu bod yn dymuno cael proses gyffredin ar draws pob lefel, a bod yn rhai yn ceisio sefydlu hynny ond bod hon yn broses araf.

Mewn tri ALI roedd yr ymatebion i'r cwestiwn hwn yn amrywio rhwng y gweithwyr proffesiynol a gyfwelwyd. Er enghraifft, disgrifiodd un arweinydd PRU yr anawsterau a brofwyd yn aml wrth ofyn i ysgolion atgyfeirio drwy'r system ffurfiol yn unig, tra roedd swyddog ALI arall, o'r un ALI, yn hyderus bod pob atgyfeiriwr yn glynu at ymarferion atgyfeirio llym.

Gosodwyd rhesymoli am beidio â defnyddio system atgyfeirio safonol, i dri chategori:

- ailstrwythuro neu adolygu systemau
- dull hanesyddol
- diffiniad o EOTAS

#### Ailstrwythuro neu adolygu systemau

Adroddodd 45% o ALI nad oedd ganddynt system safonol ar hyn o bryd gan eu bod yn y broses o ailstrwythuro neu adolygu prosesau neu weithdrefnau.

#### Dull hanesyddol

adroddodd 35% bod y system a ddefnyddiwyd ganddynt ar hyn o bryd wedi bod yn ei lle ers cryn amser, '*...fel hyn y buom yn gwneud pethau erioed...*'.

#### Diffiniad o EOTAS

---

<sup>9</sup>**NODYN:** Proses atgyfeirio safonol: arfer cyffredin, yn cynnwys ffurflen atgyfeirio gyffredin a chyfarwyddiadau cam wrth gam a chanllaw, a ddilynr yn gyson gan bob atgyfeiriwr ar gyfer pob disgybl a atgyfeirir.

Bu i 20% o'r ALI nodi 'diffiniad o EOTAS' fel y prif rwystr wrth weithredu proses atgyfeirio safonol yn yr ALI.

Fodd bynnag, nid yw'r ffigurau hyn yn cynrychioli darlun llawn o ran pryderon neu ddryswch ynglŷn â'r diffiniad o EOTAS. Cododd gweithwyr proffesiynol o 18 o'r 22 ALI gwestiynau, yn ystod cyfweiliadau wyneb yn wyneb neu fel sylwadau adborth mewn holiaduron, ynglŷn â'r diffiniad o EOTAS.

Teimlai gweithwyr proffesiynol ALI fod y diffiniad EOTAS presennol yn agored i ddehongliad goddrychol gan ei gwneud hi'n anodd i arweinwyr proffesiynol ALI gyfuno ymarferion ac i gyflawni arfer cyffredin.

'...rydym wedi cwblhau llawer o waith gyda darparwyr lleol, mae gennym gytundebau lefel gwasanaeth gyda nhw, rydym yn eu defnyddio ar gyfer plant PRU neu EOTAS ond mae ysgolion yn eu defnyddio hefyd ar gyfer rhai o'u myfyrwyr llai academiaidd yn CA4... felly ai plant EOTAS ydynt, pwy sydd â'r cyfrifoldeb drostynt pan gânt eu rhoi dan yr un ddarpariaeth oherwydd maent yn cael eu haddysgu oddi ar safle yn hytrach na gan staff ysgol...?' (Arweinydd ALI)

*'...gwelwn fod aneglurder rhwng disgyblion llwybrau dysgu o ysgolion prif ffrwd a disgyblion EOTAS... maent yn dilyn yr un rhaglen, yn cael yr un cymwysterau a phrofiadau ond maent dan benawdau gwahanol...'* (Darparwr Hyfforddiant)

'...Roeddwn yn meddwl fod PRUs ac EOTAS yn ddau beth gwahanol, bod myfyrwyr un ai'n mynd i un neu'r llall...'

 (staff EOTAS/PRU)

*'...ai EOTAS yw pob addysg nad yw'n digwydd yn yr ysgol...?'* (staff EOTAS/PRU)

Mae'r arferion panel atgyfeirio presennol ledled Cymru'n amrywio. Er enghraifft, arweiniodd un ALI gydag un panel atgyfeirio ar gyfer yr holl atgyfeiriadau EOTAS



tra rheolodd ALI arall nifer o baneli ar gyfer gwahanol ddarpariaeth EOTAS gyda phaneli ar wahân ar gyfer:

- Darpariaeth EOTAS ar wahân i ddarpariaeth PRU
- Lleoliadau PRU
- Tiwtora o gartref (anghenion meddygol yn bennaf)

Cafodd amrywiaeth rhwng gwahanol ALI ei gymhlethu ymhellach gan wahanol rolau'r paneli. Mewn nifer sylweddol o ALI (13) gallai mwy nag un panel drafod yr un disgyblion, gyda phob panel yn gwneud penderfyniadau ar wahanol agweddau o ddarpariaeth addysg neu anghenion y disgybl. Nid oedd y penderfyniadau hyn yn cael eu bwydo fel mater o drefn i baneli gwneud penderfyniadau eraill mewn modd strwythurol neu amserol gan arwain yn aml at ddryswch.

Cafwyd amrywiaeth hefyd o ran pa mor rheolaidd y cynhaliwyd cyfarfodydd o'r paneli i drafod atgyfeiriadau ar gyfer darpariaeth EOTAS. Mae rhai ALI yn cynnal paneli wythnosol, tra mae eraill yn eu cynnal bob pythefnos neu bob mis. Mewn un ALI, adroddwyd eu bod yn prosesu atgyfeiriadau EOTAS drwy gael swyddog ALI (Arweinydd EOTAS) yn ymweld ag ysgolion prif ffrwd bob hanner tymor i drafod unrhyw ddisgyblion a oedd yn cael anhawster ymdopi.

Roedd peth tebygrwydd rhwng arferion o ran sut y rheolwyd y paneli EOTAS, ond yn gyffredinol roedd dull pob ALI yn unigryw ac yn adlewyrchu profiadau proffesiynol a gwybodaeth y bobl sy'n arwain y gwaith o wneud penderfynu EOTAS. (Atodiad I)

Mewn 17 o'r ALI roedd y paneli atgyfeirio EOTAS yn cynnwys swyddogion addysg proffesiynol yn gyfan gwbl. Ni chafwyd cynrychiolaeth gan unrhyw sector arall (e.e. gwasanaethau cymdeithasol, iechyd, heddlu). Adroddodd rhai swyddogion ALI fod yna 'wahoddiad agored' ond ni allent gadarnhau a oedd y sectorau eraill yn ymwybodol o'r 'gwahoddiad agored'.

Nid oedd dros hanner yr awdurdodau (15) yn gwahodd asiantaethau y tu allan i faes addysg yn rheolaidd, fel swyddogion gwasanaethau cymdeithasol, troseddau ieuenctid neu wasanaethau iechyd gwladol (GIG), i fynychu paneli atgyfeirio, er eu bod yn adrodd bod llawer o'r disgyblion a atgyfeirir ar gyfer darpariaeth EOTAS wedi'u cysylltu â'r asiantaethau hynny.

Yn gyffredinol, roedd gan baneli atgyfeirio ar gyfer darpariaeth ddynodedig (h.y. paneli unigol ar gyfer darpariaeth PRU neu diwtora), aelodaeth lai a llai amrywiol arnynt. Er enghraifft, dau swyddog addysg, un arweinydd ac un dirprwy fel aelodau o'r panel.

Mewn ychydig o'r ALI (3) roedd yr aelodaeth yn amrywiol. Er enghraifft, roedd yr aelodaeth yn rheolaidd yn cynnwys:

- Swyddogion arweiniol PRU/EOTAS
- Seicolegwyr addysg
- Staff uwchradd a chynradd
- Swyddogion Lles Addysg
- Swyddogion proffesiynol Gwasanaethau Troseddau Ieuenctid
- Swyddogion proffesiynol ar ddiogelwch
- Gwahoddiadau agored i swyddogion proffesiynol o'r GIG a gwasanaethau cymdeithasol

Disgrifiodd rhai ymatebwyr (11) sut y gweithiant i fod yn gynhwysol yn eu dull o reoli atgyfeiriadau. Rydym yn gweithio'n galed i gynnal cyfranogiad ysgolion prif ffrwd a pherchnogaeth y disgyblion. Er enghraifft:

- Paneli wedi'u cadeirio gan benaethiaid ysgolion prif ffrwd,
- Gwahanol aelodau o'r panel yn arwain ar gyflwyno atgyfeiriadau unigol i'r panel.

*'...Gwelais newid mawr wrth gael penaethiaid yn cadeirio cyfarfodydd...maent yn gweld y darlun ehangach sy'n golygu bod y penderfyniadau yn fwy pwylllog...mae*

*hefyd wedi cael effaith ar safon y wybodaeth atgyfeirio sy'n dod i'r panel...'*  
(Arweinydd PRU)

Roedd gan lai na 10% (2) o'r ALI 'gylch gorchwyl' ysgrifenedig ar gyfer swyddogion proffesiynol sy'n mynychu paneli, tra roedd eraill yn y broses o ddatblygu 'cylch gorchwyl'. Adroddodd nifer fach (3) o'r ALI '...maent yn sicr o fod ar gael yn rhywle...', ond bod y swyddogion proffesiynol ynghlwm â'r panel atgyfeirio EOTAS yn deall y broses.

Cytunodd yr ymatebwyr y byddai cael templed 'cylch gorchwyl' ar gyfer y rhai sy'n mynychu yn codi proffesiynoldeb a phwysigrwydd paneli atgyfeirio EOTAS.

#### Blwch 1: Cylch Gorchwyl Panel Atgyfeirio EOTAS (Atodiad II)

**Eglurhad:** *Mae Cylchoedd Gorchwyl yn rhyw fath o 'femorandwm cyd-ddealltwriaeth' y gellir ei ddefnyddio i lywio gwaith Panel EOTAS. Dylai Cylch Gorchwyl fod ar gael i'r holl bartneriaid cyn y paneli a'u hystyried fel, "dogfen fyw" – un y gellir ei adolygu'n rheolaidd gan y panel a'i ddiweddarau wrth i ddisgwyliadau a chyfrifoldebau newid*

I grynhoi, roedd dwy system amlwg yn cael eu defnyddio ar hyn o bryd ledled Cymru. Fodd bynnag, roedd pennu ffigwr penodol ar ba 'system' a ddefnyddir ym mhob awdurdod yn anodd. Roedd data a gasglwyd o holiaduron a gwblhawyd gan swyddog proffesiynol mewn ALI yn aml yn wahanol i'r data a gasglwyd o gyfweliadau wyneb yn wyneb gyda swyddog proffesiynol arall o'r un ALI. Y rheswm am hyn oedd y cyfleoedd cynyddol i ofyn cwestiynau estynedig ac efallai bod rhai holiaduron wedi cael eu cwblhau gan swyddogion proffesiynol na chafodd eu cyfweld yn ddiweddarach.

Cyfrannodd swyddogion proffesiynol o bob ALI i'r gwaith o adnabod manteision ac anfanteision y ddwy system a ddefnyddir ledled Cymru. Swyddogion proffesiynol o'r gymuned EOTAS yw'r rhan fwyaf o'r cyfranwyr (46) i'r adolygiad

hwn, sydd wrth gwrs yn golygu bod manteision ac anfanteision y naill system yn cael eu dylanwadu'n sylweddol gan y grŵp hwn. Yn gyffredinol ategodd ymatebwyr ysgolion prif ffrwd a MIS farn y swyddogion proffesiynol hynny sy'n gweithio yn yr EOTAS, ond cafwyd cyfraniad ganddynt hefyd o ran eu safbwyntiau unigol eu hunain. Nodir y rhain fel sylwadau ychwanegol.

Y ddwy system a ddefnyddir ar hyn o bryd ledled Cymru yw:

**System Un – paneli lluosog yn ymdrin â gwahanol agweddau o ddarpariaeth EOTAS gydag aelodaeth gyfyngedig**

**Blwch 2: Manteision ac anfanteision System Un**

MANTEISION	ANFANTEISION
<ul style="list-style-type: none"> <li>cyfarfodydd byrrach</li> <li>paneli llai, gallwch negodi'n well</li> <li>ymatebol – os yw'r bobl gywir wrth y bwrdd ac yn mynychu'r panel cywir</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>gall ddisgybl 'lithro drwy'r rhwyd', cael ei golli rhwng paneli</li> <li>gwybodaeth yn cael ei cholli rhwng paneli</li> <li>data atgyfeirio'n fwy tebygol o fod yn wahanol ym mhob panel</li> <li>efallai na fydd y ddarpariaeth a ofynnir amdani yn briodol, ac o ganlyniad rhaid cyfeirio at banel gwahanol</li> </ul>
	<p><b>Sylwadau ychwanegol</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>gall gyfyngu gweithio mewn partneriaeth (ysgol prif ffrwd)</li> </ul>

**System Dau – paneli amlasiantaethol senl rheolaidd a phenderfyniadau lluosog yn ymdrin â phob un atgyfeiriad EOTAS**

**Blwch 3: Manteision ac anfanteision System Dau**

MANTEISION	ANFANTEISION
<ul style="list-style-type: none"> <li>ystyriaeth gyfannol o ddisgybl</li> <li>tryloywder gwneud penderfyniadau</li> <li>panel lefel uchel yn creu lefel uwch o bwysigrwydd a gorfodaeth i fynychu</li> <li>gall y panel adolygu'n fwy strategol, h.y. eithriadau ac ati.</li> <li>mae mwy o asiantaethau ynghlwm yn caniatáu i wybodaeth gael ei rhannu'n well</li> <li>gwell cofnod o gyfranogiad a gweithredu</li> <li>llai tebygol o golli disgyblion, gwell cyfleoedd i ddiogelu</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>efallai bydd ysgolion yn cwyno bod yr ymatebion yn rhy araf</li> <li>gall gymryd llawer o amser os na fydd y cadeirydd yn rhywun profiadol</li> <li>gormod o leisiau gwahanol</li> <li>gall y llwyth data fod yn llethol</li> </ul>

<ul style="list-style-type: none"> <li>• gwneud penderfyniadau'n gynt</li> <li>• gwybodaeth mewn un lle sy'n galluogi adnabod themâu cadarnhaol a negyddol ar draws holl ardal ddaearyddol yr ALI</li> </ul>	
<ul style="list-style-type: none"> <li>• cytuno ar ddyddiadau blynyddol y paneli</li> <li>• gall wella'r defnydd o amser y swyddogion proffesiynol</li> <li>• asiantaethau yn dysgu gan y naill a'r llall – sy'n helpu i ddatblygu gwell gwaith mewn partneriaeth</li> </ul>	

**NODYN:** Nid oedd yr un o'r systemau hyn wedi'u cysylltu ag un math demograffig neu boblogaeth

EOTAS

Yn gyffredinol, siaradodd y swyddogion proffesiynol hynny a oedd yn gweithio gyda System Un am eu hymwybyddiaeth o'r angen i adolygu'r arfer. Bu i'r rhan fwyaf gyfiawnhau'r dull hwn, ond yn cydnabod ei fod yn gweddu ag anghenion y swyddogion proffesiynol yn hytrach na rhai'r disgyblion. Er enghraifft:

- *'...weithiau mae modd gwneud mwy yn y cyfarfodydd anffurfiol...'*
- *'...mae gennym wahanol bobl yn rheoli gwahanol rannau o EOTAS felly mae'n haws i ni ei wneud fel hyn...'*
- *'...rydym wedi gwneud pethau fel hyn erioed...rwyf wedi ceisio newid ond mae'n hanesyddol...'*

Roedd yn amlwg fodd bynnag bod y rhan fwyaf o'r ymatebwyr (dros 95%) yn cydnabod yr angen i newid.

- *'...os gall yr hyn a wnewch ein helpu i gael y rhai sydd uwch ein pennau i wrando a newid y system, byddai hynny o fudd mawr...'*
- *'...byddai'n well i'r myfyrwyr petai popeth sydd yn EOTAS ar yr un panel...cyfuno adnoddau a gwybodaeth sydd orau i'r disgyblion yn sicr...'*

Barn un ymatebwr, sy'n defnyddio System Un ar hyn o bryd, oedd mai'r dull hwn oedd orau o ystyried prinder amser yn ei rôl broffesiynol a byddai'n hapus parhau â'r system hon. Nid dyma oedd ymateb ymatebwyr eraill sy'n defnyddio'r system hon ar hyn o bryd.

Mae System Dau yn ddull sy'n fwy tebygol o fodloni anghenion y disgybl. Mae'r dull 'un siop' hwn yn cynnig argraff well o anghenion addysgiadol ac emosiynol y disgyblion hynny sydd angen cymorth ychwanegol i reoli eu haddysg.

Gall trafodaethau amlasiantaethol a gwneud penderfyniadau gynnig golwg fwy strategol ar y materion a wyneba ysgolion, asiantaethau eraill a chymunedau o fewn awdurdod.<sup>10</sup>

Nododd yr ymatebwyr:

- *'...panel amlasiantaethol yn ystyried yr holl atgyfeiriadau EOTAS yn sicr yw'r dewis gorau er budd y plant...'*
- *'...wrth ddod â'r holl baneli EOTAS neu gyfarfodydd atgyfeirio at ei gilydd bydd pawb ohonom yn gwybod beth sy'n digwydd...ac rydych yn llai tebygol o golli disgyblion...'*
- *'...mae bywydau rhai o'r disgyblion yn gymhleth, gall fod yn beryglus gosod plant dan ddarpariaeth heb y ffeithiau i gyd...yn y gorffennol rhaid oedd delio ag anghydfodau difrifol rhwng disgyblion gan nad oedd yr hanes llawn ar gael...nid yw'r holl wybodaeth ar gael i ysgolion...'*
- *'...gall gofyn am ddarpariaeth EOTAS fod yn ddigwyddiad arwyddocaol mewn addysg disgybl a bywyd teuluol, trafodaeth agored rhwng swyddogion proffesiynol yw'r unig ffordd i ni fedru gwneud penderfyniadau gwirioneddol...'*

Model System Dau sy'n cynnig paneli amlasiantaethol sengl rheolaidd a phenderfyniadau lluosog yn ymdrin â phob un atgyfeiriad EOTAS, oedd yr un a ffefrir gan dros 90% o ALI.

Roedd dros 80% o ymatebwyr yn cydnabod y gallai lleihau'r nifer o baneli fod yn gymhleth fel cam cyntaf. Nododd y mwyafrif y gallai'r rhai sy'n defnyddio

---

<sup>10</sup><https://www.gov.uk/government/speeches/social-care-monthly-commentary-march-2017>  
<http://www.snapcymru.org/wp-content/uploads/2015/10/15-025.pdf>  
[www.childreninwales.org.uk/.../Tackling-Child-Poverty-in-Wales-Revised-Version-M](http://www.childreninwales.org.uk/.../Tackling-Child-Poverty-in-Wales-Revised-Version-M)

systemau 'hanesyddol' ei chael hi'n anodd ymdopi â newid heb gyfarwyddyd clir gan Lywodraeth Cymru.

Wrth feddwl am y ddwy system mae'n bwysig ystyried pwy sy'n cael eu galluogi orau gan y gwahanol systemau hyn. Ar ôl codi'r cwestiwn hwn gyda'r ymatebwyr ailenwyd 'y systemau' yn fuan iawn:

- System Un – bodloni anghenion yr 'oedolyn' (awdurdodau lleol ac ysgolion prif ffrwd): yn helpu gyda chynllunio dyddiaduron, mwy o gyfleoedd i sicrhau 'dêl'
- System Dau – bodloni anghenion y disgybl: argraff fwy cyfannol, mwy o wybodaeth ac arbenigedd ehangach, gwneud penderfyniadau gwell

## **4.2 PA WYBODAETH A OFYNNIR AMDANI AR HYN O BRYD AR GYFER ATGYFEIRIADAU EOTAS?**

Adroddodd pob ALI a ymatebodd (22) eu bod yn casglu 'gwybodaeth gyffredinol ar ddisgyblion'; e.e.

- enw
- Dyddiad Geni
- rhyw
- cyfeiriad
- Prydau ysgol am ddim
- presenoldeb
- rheswm dros atgyfeirio

Gofynnodd y mwyafrif (16):

- canlyniadau dewisol
- ychydig o ddata ar gyrhaeddiad
- yr asiantaethau ynghlwm

Gofynnodd ychydig ohonynt (4) am ragor o wybodaeth:

- gwybodaeth feddygol – yn cynnwys CAMHS
- pryderon ynghylch diogelwch
- asesiadau risg
- Cyfranogiad CJS
- ymyriadau eisoes wedi'u gweithredu a'r canlyniadau

- materion teuluol a allai effeithio ar ymgysylltiad

Adroddodd pob ALI anawsterau wrth i ysgolion beidio â chyflwyno'r wybodaeth a ofynnwyd amdani. Dywedodd y rhan fwyaf o ALI iddynt 'fownsio' ffurflenni atgyfeirio yn ôl i ysgolion pan nad oedd y ffurflenni atgyfeirio wedi'u cwblhau'n gywir, sy'n oedi'r broses. Cafwyd llai o anawsterau o ran ffurflenni anghyflawn gyda'r paneli a gadeiriwyd neu a fynychwyd gan benaethiaid ysgolion.

*'...credaf mai'r rheswm am hyn yw bod penaethiaid sy'n rhan o'r panel yn medru gweld sut all atgyfeiriad gael ei oedi os na chwblheir ffurflen yn gywir...'*

Roedd dyluniad a ffurf y ffurflenni atgyfeirio'n amrywio'n sylweddol rhwng yr ALI ac o fewn y ALI hefyd yn achlysurol. Er enghraifft, roedd gan wahanol ddarpariaeth EOTAS ffurflenni atgyfeirio gwahanol, ac weithiau gofynnwyd am wahanol fathau o ddata.

Amrywiaeth arall yw yn y modd mae data atgyfeirio a geisir gan ALI yn cael ei gyflwyno: un ai'n electronig neu ar bapur. Fodd bynnag, roedd 95% o swyddogion proffesiynol yn ffafrio gwybodaeth electronig.

- *'...mae'n llai tebygol y bydd gwybodaeth yn mynd ar goll...'*
- *'...mae defnyddio ffurflen electronig yn helpu i atal ysgolion dicio'r blychau yn unig a 'thorri corneli' yn y system atgyfeirio...'*

Cafwyd llai na 5% (2) yn nodi anawsterau ynglŷn â chwblhau ffurflenni atgyfeirio electronig:

- *'...Rwy'n deall hyblygrwydd systemau electronig ond mae'n well gen i gopi papur o fy mlaen ac i mi mae'n haws gweithio ohono...'*

Roedd y sylwadau'n cynnwys pryderon am y costau o gynhyrchu systemau newydd o atgyfeirio. Fodd bynnag, wrth feddwl am y systemau electronig a ddefnyddir ar hyn o bryd ac sydd ar gael ledled Cymru, e.e. SIMS (system a allai gael ei defnyddio'n well) cytunodd pob un o'r ymatebwyr y byddai system atgyfeirio electronig yn fwy effeithiol o ran amser a chost ac yn arwain at ddull mwy cyson.



#### 4.3. PA DDEILLIANNAU DISGYBLION MAE YSGOLION AC ALLAU YN GOFYN AMDANYNT?

Dywedodd dros 95% (45) o ymatebwyr Swyddogion ALI ac Unedau Cyfeirio Disgyblion ac EOTAS bod deilliannau a chwenychir gan yr ysgol yn gysylltiedig i newid ymddygiad.

- *'...ymddygiad, ymddygiad, ymddygiad...'*
- *'...dydyn ni erioed wedi cael plentyn wedi ei atgyfeirio am resymau academaidd...'*
- *'...hyd yn oed os oes yna atgyfeiriad meddygol am orbryder neu ffobia ysgol, yn gyffredinol mae'r deilliannau a chwenychir yn gofyn i ni newid eu hymddygiad er mwyn cael gwell mynediad at yr ysgol...'*
- *'...fel arfer i wella eu hymddygiad fel eu bod yn llai aflonyddgar mewn ysgolion...'*
- *'...hyd yn oed pan fydd plant yn cael eu hatgyfeirio oherwydd nad ydynt yn mynychu neu oherwydd ffobia, maen nhw'n dal yn gofyn i ni newid eu hymddygiad, er mwyn iddynt gael gwell mynediad at addysg... ond i'r plant yma mae'n gyflwr meddygol sydd ganddyn nhw...mae gofyn i ni ddarparu addysg...'*
- *'...fel arfer mae hyn yn gysylltiedig i ymddygiad plentyn...'*

Mynegodd ymatebwyr bryderon am beidio cysylltu deilliannau a chwenychir ar gyfer disgyblion i ddangosyddion llwyddiant a fesurir gan Lywodraeth Cymru. Yr adborth cyffredinol wrth ofyn am ddeilliannau a chwenychir yr atgyfeirwyr oedd nad oes cyswllt rhwng beth mae gofyn i ddarparwyr Unedau Cyfeirio Disgyblion ac EOTAS ei wneud a beth mae darpariaeth Unedau Cyfeirio Disgyblion ac EOTAS yn cael ei farnu arno.

Roedd yna gred gyffredinol gan Swyddogion ALI a staff Unedau Cyfeirio Disgyblion ac EOTAS bod yna ddisgwyliadau ymddygiad gan yr atgyfeirwyr ond disgwyliadau o gyflawniad academaidd gan y rhai oedd yn eu beirniadu. Mae hyn yn cael ei ystyried i fod yn gamgymhariat sydd angen sylw.

Fodd bynnag, disgrifiodd pennaeth un Uned Cyfeirio Disgyblion sut mae'r fframwaith Archwilio newydd Estyn wedi galluogi ei thîm i arddangos y 'pellter a deithiwyd' gan ddisgyblion yn yr Uned mewn archwiliad diweddar. (Atodiad I)

#### **4.4. SUT MAE'R WYBODAETH GAN ATGYFEIRWYR YN DARPARU CYFLEOEDD I NODI LLWYDDIANT MYFYRWYR MEWN PRESENOLDEB. YMDDYGIAD A CHYRHAEDDIAD?**

Wrth ofyn y cwestiwn hwn yn wreiddiol, adroddodd 96% (46) o Swyddogion ALL a staff Unedau Cyfeirio/EOTAS nad oedd yr wybodaeth gyfredol a ddarparwyd gan atgyfeirwyr yn rhoi cyfle i arddangos cynnydd myfyrwyr ar lefel genedlaethol, ond y gallai ar lefel leol.

- *'...mae'n bosibl o safbwynt darpariaeth Unedau Cyfeirio neu hyd yn oed ar lefel ALL oherwydd gallwn greu llinell sylfaen i ni fesur ble roedd disgybl a ble mae disgybl, ond dydy hynny ddim yn golygu llawer ar lefel genedlaethol...'*
- *'...mae'r newidiadau yn fframwaith Estyn yn ein galluogi i arddangos cynnydd, ond mae LIC yn edrych ar wahanol wybodaeth, felly na...'*
- *'...efallai ar lefel leol os yw'r ysgolion yn ei ddarparu i gyd, ond nid yn genedlaethol...'*
- *Na, disgwylir i ddarpariaeth EOTAS ddarparu cwricwlwm academaidd, ac fe wyddom hyn oherwydd dim ond y cwricwlwm academaidd a fesurir, L2+...mae'n rhaid iddyn nhw gofio fod y plant yma gyda ni ac mai arbenigwyr ymddygiad ydyn ni, nid arbenigwyr mewn pynciau...'*

Gofynnem gwestiwn pellach i helpu ymatebwyr i ystyried ymatebion ehangach.

#### ***Pwy sy'n penderfynu pa wybodaeth a ddarperir ar gyfer y broses***

***atgyfeirio?*** Wedi gofyn y cwestiwn hwn y gwnaeth mwyafrif yr ymatebwyr adnabod y dylai paneli arwain y blaen o ran newid ansawdd gwybodaeth a data a ddarparwyd ar y pwynt cyfeirio. Arweiniodd hyn at ymatebwyr yn myfyrio ar werth y data a gesglir ar y pwynt cyfeirio at baneli EOTAS.

- *'...pe byddai pawb ohonom yn casglu'r un math o ddata, byddai gennym rywbeth i gymharu ein hunain yn ei erbyn...'*
- *'...galledd ddefnyddio'r wybodaeth i greu llinell sylfaen ar gyfer y disgyblion '...byddai casglu set ehangach o ddangosyddion yn helpu creu llinell sylfaen ehangach o wybodaeth...'*
- *'...pe byddem i gyd yn gofyn cwestiynau craidd wrth gyfeirio, byddai'n galluogi Llywodraeth Cymru i dargedu materion mewn gwahanol ardaloedd o Gymru... byddai'n helpu gwella targedu cyllid canolog...'*
- *'...bydd gwell mewnbwn yn darparu gwell allbwn...'*
- *'...byddai gwybodaeth cyfeirio gyffredin yn arwain at gymariaethau mwy ystyrlon...'*
- *'...fe wyddom fod meincnodi o ryw fath ar ei ffordd... mae hyn yn fan cychwyn ar gyfer hynny ond gyda ni yn helpu ei dywys...'*
- *'...byddai'n rhoi mynediad i ESTYN at wybodaeth gymharol ddefnyddiol...'*

Roedd mwyafrif llethol yr ymatebwyr (50) yn cydnabod gwerth datblygu templed ar gyfer 'ffurflen atgyfeirio gyffredin EOTAS'. Dim ond un ymatebwr a heriodd werth newid eu harferion presennol. Fodd bynnag, wedi trafodaeth bellach ar ddatblygu dulliau o arddangos amrywiaeth, anghenion addysgol a chymdeithasol ac ymddygiad yn y boblogaeth EOTAS roedd yr ymatebwr hwn hefyd yn cytuno fod angen datblygu ac esblygu'r broses bresennol.

#### **4.5. PA FANTEISION NEU ANFANTEISION SYDD YNA AR GYFER DATBLYGU FFURFLEN ATGYFEIRIO GYFFREDIN EOTAS?**

Manteision - roedd ymatebion yn cynnwys:

- *Cam tuag at ddatblygu system meincnodi;*
- *Bydd gwybodaeth gyffredin yn helpu nodi cryfderau a gwendidau ar draws y wlad;*
- *Helpu sicrhau cyfartaledd;*
- *Yn haws nodi arfer da a'i rannu ledled Cymru;*
- *Gallu gwneud cymariaethau cenedlaethol;*

- *Byddai proses gyfeirio genedlaethol yn helpu darparu tystiolaeth o 'daith' disgybl. Dydyn nhw ddim i gyd yn cychwyn o'r un man;*
- *Byddai data cyffredin yn helpu arddangos anghenion cymhleth ac amrywiol disgyblion a'r galwadau ar wasanaethau;*
- *Byddai'n helpu nodi bylchau mewn darpariaeth.*

Anfanteision - roedd ymatebion yn cynnwys:

- *'...Heb rywfaint o hyblygrwydd ym mha ddata a gesglir, gallem ddod yn un wladwriaeth, gan gollu ein hunaniaeth fel awdurdodau...'*
- *'...Byddai'n dod yn ffordd o feincnodi...'* (Staff Uned Gyfeirio: pryder y gellid beirniadu eu darpariaeth bresennol)
- *'...nid yw'n werth dim os yw'r system yn aros yr un fath ac yn mesur deilliannau academaidd yn unig, fel y maent yn erbyn ysgolion prif ffrwd. Nid yw'r disgyblion hyn mewn ysgolion prif ffrwd am reswm, felly pam ddim mesur rheswm...'*
- *'...os na fyddai'r data a gesglir yn cyd-fynd â'r hyn sy'n cael ei fesur...'*

Roedd ymatebwyr yn awyddus i symud y syniad o ddatblygu Ffurflen Atgyfeirio Gyffredin EOTAS ymlaen, gydag amodau ei fod yn galluogi cyflwyno gwybodaeth mewn beth yr oedd ymatebwyr yn ei ddisgrifio fel maes chwarae gwastad.

Roedd ymatebwyr yn poeni nad oedd data, neu ddangosyddion cenedlaethol, yn parhau i fod yn un dimensiwn.

Ar draws Cymru, roedd adborth yn awgrymu fod rhai ALLau (7) eisoes yn ymdrechu i arddangos cymhlethdodau ac amrywiaeth anghenion a phrofiadau sy'n effeithio ar allu disgyblion i gyflawni'r safonau academaidd maent yn cael eu mesur yn eu herbyn ar hyn o bryd. Er enghraifft:

- Proffil Asesiad Bregusrwydd Disgybl Abertawe<sup>11</sup>, a ddefnyddir mewn nifer fechan o ALLau yn Ne Cymru
- TRAC 11-24<sup>12</sup>, prosiect i gefnogi pobl ifanc 11-24 oed sy'n datgysylltu gydag addysg ac mewn perygl o fod yn NEET (pobl nad ydynt mewn

<sup>11</sup> <https://www.cardiffpartnership.co.uk/.../item-2-swanea-Pupil-Vulnerability-Assessme...>

addysg, cyflogaeth na hyfforddiant), a ddefnyddir ar draws ALLau Gogledd Cymru

Fodd bynnag, roedd 39 o'r ymatebwyr yn glir oherwydd nad oes 'ymagwedd gyffredin' ar draws Cymru, bod yr offer yma, waeth pa mor ddefnyddiol ydynt, yn ddefnyddiol ar lefel leol yn unig, a'i bod yn bwysig cyflawni ymagwedd Cymru gyfan, gyda lle ar gyfer rhywfaint o amrywiaeth leol. (Atodiad I)

Gellir datblygu offer proffilio i 'sgorio' neu 'bwysoli' yn erbyn disgyblion ar nifer o ddangosyddion. Gall y pwysoli yma ddarparu gwedd fwy holistaidd o anghenion disgybl, eu rhwystrau a chryfderau.

Cytunodd 50 o ymatebwyr fod casglu data craidd yn rhan o ffurflen atgyfeirio gyffredin EOTAS yn caniatáu ar gyfer datblygu system wedi ei phwysoli i arddangos cyflawniad disgyblion; gan arwain at gydnabod a gwerthfawrogi cynnydd a chyflawniad y disgyblion mwyaf bregus, rhywbeth nad yw'n digwydd ar hyn o bryd yn ôl ymatebwyr oherwydd tuedd academaidd.

- *'...Efallai fod hyn yn ymddangos yn beth anodd ei wneud, ond dyma beth ydyn ni'n ddweud ydyn ni ei eisiau... rydyn ni eisiau maes chwarae cyfartal, rydyn ni eisiau i gynnydd disgyblion gael ei werthfawrogi ond rydyn ni eisiau sicrhau y datblygir meincnodi gyda'n cyfraniad ni... bydd cryfhau ein data sylfaenol trwy arferion cyffredin a system bwysoli gyffredin i'r holl ddisgyblion, nid dim ond disgyblion EOTAS, yn rhoi hyn i ni...'*
- *'...mae'r rhan fwyaf o'r offer sydd angen i wneud hyn yno'n barod, dim ond fod angen i ni eu defnyddio'n fwy effeithiol...'*

Fodd bynnag, teimlai adborth gan ysgolion prif ffrwd y byddai hyn yn waith atodol iddyn nhw fel y gweithwyr proffesiynol yn darparu'r wybodaeth cyfeirio.

---

<sup>12</sup> <https://www.denbighshire.gov.uk/cy/eich-cyngor/strategaethau-cynlluniau-a-pholisiau/addysg-ac-ysgolion/prosiect-trac-11-24.aspx>

## 5.0. MYFYRDODAU TERFYNOL

Mae yna amrywiaethau mewn arferion paneli cyfeirio ar draws Cymru, ac ar adegau o fewn awdurdodau lleol. Awgryma'r casgliadau nad yw'r amrywiaethau hynny wedi eu hysgogi gan gyfyngiadau ariannol, ond yn hytrach gan brofiadau a gwybodaeth y prif weithwyr sy'n gyfrifol am brosesau gwneud penderfyniadau EOTAS.

Mewn rhai ALLau, ychydig neu fawr ddim newid a fu mewn arferion cyfeirio EOTAS ers nifer o flynyddoedd. Mewn ALLau eraill, mae yna dystiolaeth glir o waith yn cael ei wneud i adolygu a gwella arferion. Mae gan rai o'r ALLau hyn arferion a fyddai'n fanteisiol i eraill o'u rhannu, tra bod gweithwyr proffesiynol mewn ALLau eraill yn cael trafferth ymgysylltu gyda rhanddeiliaid allweddol i gytuno i wneud newidiadau a fyddai'n gwella arferion.

Roeddem yn disgwyl gweld rhai gwahaniaethau, fel y rhain yn deillio o faterion daearyddol unigryw a galwadau o boblogaethau o wahanol feintiau. Fodd bynnag, cawsom ein synnu ar yr ochr orau i weld nad oedd y gwahanol heriau ac arferion yn gysylltiedig i boblogaeth na daearyddiaeth, ond yn hytrach oherwydd safbwyntiau, gwybodaeth ac arbenigedd cefndirol yr unigolion hynny yn bwydo i mewn i'r adroddiad.

Nododd y casgliadau themâu tebyg ar draws Cymru, megis tebygolrwydd yn yr heriau mae'r paneli EOTAS blaenllaw hynny yn wynebu: ond nid oedd unrhyw gyswllt clir rhwng y rhain a daearyddiaeth neu boblogaeth. Roedd tebygrwydd yn cynnwys:

- Paneli yn cael anhawster gydag ysgolion yn peidio llenwi ffurflenni atgyfeirio,
- Diffyg cyllid,
- Gormod o alw ar ddarpariaeth,

- Pryderon ynghylch dangosyddion cenedlaethol nad ydynt wedi eu strwythuro i helpu arddangos arfer da neu gynnydd disgyblion,
- Pryderon am ddisgyblion yn mynd ar goll yn y system.

Bwysicaf oll, thema gyffredin a welsom yn y 21 ALI oedd parodrwydd i ddatblygu gwell cysondeb ar draws Cymru ac i wella arferion atgyfeirio EOTAS.

Cododd adborth gan yr holl randdeiliaid allweddol sydd wedi cyfrannu i'r adroddiad hwn y penbleth arferol ar gyfer yr ymchwilwyr; 'a oes modd gwella prosesau ac arferion, ar lefel leol a chenedlaethol, heb greu baich ariannol trom i ALLau?'

Datblygu datrysiadau oedd y cam cyntaf; roedd hyn yn cynnwys ymchwilio i gostau posibl yn atodedig i bob un o'r datrysiadau hyn. Beth oedd yn amlwg oedd y gellir gweithredu'r seilwaith ar gyfer datrysiadau ymarferol a gyflwynwyd1 o fewn arferion atgyfeirio cyfredol ar draws Cymru, waeth pa system a ddefnyddir. Fodd bynnag, dylid ystyried adolygiad mwy trylwyr o unrhyw gostau posibl gan y Grŵp Cyflawni EOTAS.

Rydym yn cloi'r adran hon gydag ymateb ysgrifenedig o un holiadur sy'n arddangosiad da o'r pryderon a rhwystredigaeth a fynegwyd yn gyson gan ymatebwyr yn ystod y dadansoddiad hwn:

- *'...mae'r darlun cenedlaethol o EOTAS yn llanast... mae natur amwys ac amhendant EOTAS yn ddryslyd ac yn arwain at anghysondebau ar draws Cymru... Mae rhai Awdurdodau Lleol ar draws Cymru yn cuddio ffigurau ar blant bregus trwy eu tynnu o gofrestrau ysgolion prif ffrwd a rôl Unedau Cyfeirio Disgyblion ym Mlwyddyn 11. Mae'r plant yma yn cael eu gosod ar gofrestrau EOTAS h.y. eu tynnu oddi ar gofrestr unrhyw ysgol neu Unedau Cyfeirio Disgyblion, ac nid ydynt yn cyfrif yng nghanlyniadau'r Awdurdod Lleol neu ysgol. Mae'r Awdurdodau Lleol hyn yn perfformio'n uwch yn ystadegol mewn tablau cynghrai Lefel 1, Lefel 2 a Lefel 2+ yn rhannol*

*oherwydd yr arfer hwn... rhaid i Estyn a Llywodraeth Cymru weithredu ar fyrder i daclo'r materion hyn...' (Pennaeth Uned Cyfeirio Disgyblion)*



## 6.0 DATRYSIADAU YMARFEROL

6.1. Opsiwn Un: Parhau gydag arferion cyfredol gyda deunyddiau atodol a darparu'r casgliadau ymchwil hyn i ALLau fel adnodd y gallant benderfynu ei ddefnyddio i helpu hysbysu gwneud penderfyniadau i adolygu neu beidio adolygu systemau ac arferion lleol.

Manteision dethol y datrysiad hwn fyddai cyfyngu i arferion cyfredol sydd eisoes ar waith ac wedi eu deall yn gyffredinol gan y paneli atgyfeirio EOTAS blaenllaw hynny; ni fyddai unrhyw gostau personél nac ariannol i daclo'r newidiadau.

Anfanteision yn cynnwys:

- diffyg cysondeb mewn arferion ar draws Cymru
- parhad pryderon am ddisgyblion yn 'syrthio trwy'r rhwyd'
- gweithio mewn partneriaeth gyfyngedig
- data disgyblion EOTAS yn gorgyffwrdd mewn gwahanol systemau data
- diffyg data craidd cyffredin i helpu nodi materion ar lefel strategol
- diffyg cydraddoldeb wrth wneud penderfyniadau gyda chytundebau anffurfiol parhaus

6.2. Opsiwn Dau: Cyflwyno un system ble mae pob ALL yn cynnig panel amlasiantaethol pwrpasol, hollgwmpasog rheolaidd i wneud penderfyniadau lluosog sy'n delio â phob atgyfeiriad EOTAS:

Manteision - yn cynnwys:

- ystyriaeth gyfannol o ddisgybl
- adolygiad mwy strategol o faterion lleol yn gysylltiedig i atgyfeiriadau EOTAS
- tryloywder gwneud penderfyniadau
- cynyddu gwaith amlasiantaethol i wella rhannu gwybodaeth a gweithio mewn partneriaeth
- cytuno'n flynyddol ar ddyddiadau paneli
- llai tebygol o golli disgyblion, gwell cyfleoedd i ddiogelu

Anfanteision yn cynnwys:

- mynd ag amser gweithio gweithwyr proffesiynol yn gweithio mewn siroedd daearyddol fwy

- cynyddu costau teithio
- cynyddu'r tebygolrwydd o ddiffyg presennol oherwydd cyfyngiadau amser Mae'r anafanteision sy'n gysylltiedig i'r ail ddatrysiad yn gysylltiedig i gyfyngiadau amser a theithio ar gyfer siroedd daearyddol fwy. Fodd bynnag, gellid trechu'r anafanteision gyda defnydd cynyddol o dechnoleg cyfathrebu sydd ar gael megis cyfarfodydd Skype a chynadleddau ffôn.

6.3 Opsiwn Tri: Cyflwyno defnydd o un gronfa ddata EOTAS sengl ym mhob ALLI, sy'n dal data o bob panel atgyfeirio sy'n trafod darpariaeth EOTAS a disgyblion EOTAS. Gall ALLau barhau i ddefnyddio system paneli lluosog neu banel unigol i ddatrys materion daearyddol a phersonél sy'n unigryw i bob ALLI, dylai deilliannau o unrhyw banel fwydo i mewn i un gronfa ddata EOTAS.

I gefnogi'r gronfa ddata unigol EOTAS defnyddio Ffurflen Atgyfeirio Gyffredin EOTAS i gasglu data craidd. Gall ALLau ofyn am ddata atodol sy'n benodol i'w cymunedau yn y Ffurflen Atgyfeirio EOTAS, a gellir cynnwys hyn yng nghronfa ddata EOTAS yr ALLI, tra bod y data craidd yn gyffredin i'r holl ALLau.

Manteision - yn cynnwys:

- Ymagwedd Cymru gyfan yn datblygu system adrodd 'maes chwarae tecach'
- golwg strategol, ar lefel leol a chenedlaethol, o'r materion yn gysylltiedig i atgyfeiriadau EOTAS
- golwg strategol, ar lefel leol a chenedlaethol, i nodi arfer da a meysydd i'w datblygu a chefnogi
- tryloywder gwneud penderfyniadau
- cynyddu gwaith amlasiantaethol i wella rhannu gwybodaeth a gweithio mewn partneriaeth
- lleihau'r risg o golli disgyblion yn y system, gwella cyfleoedd ar gyfer diogelu
- hwyluso rhannu data os yw disgyblion yn symud i awdurdodau gwahanol
- bydd data cyffredin yn cynyddu cyfleoedd i arddangos cynnydd disgyblion ar lefel leol a lefel genedlaethol
- datblygu cyfleoedd ar gyfer meincnodi EOTAS

Un fantais o gyflwyno cronfa ddata EOTAS unigol a Ffurflen Atgyfeirio Gyffredin EOTAS yw fod 21 o'r ALLau wedi cytuno y byddai casglu data craidd yn rhan o'r broses atgyfeirio EOTAS yn gwella arferion ar draws Cymru yn fawr iawn.

Byddai anfanteision wedi eu cyfyngu'n gyffredinol i weithwyr proffesiynol yn gorfod newid ymddygiadau sydd wedi eu mewnosod yn hanesyddol yn eu harferion cyfredol. Fodd bynnag, gellir hwyluso hyn gydag offer a fydd yn helpu tywys newidiadau mewn arferion.

## **7.0. OFFER YMARFEROL**

Mae'r adran hon yn cyflwyno offer sy'n gallu cynnig atebion ymarferol i wella prosesau atgyfeirio EOTAS ar draws Cymru. Sef:

### Templed Cylch Gorchwyl (Atodiad II)

Mantais glir o ddarparu Cylch Gorchwyl, neu ganllaw gweithio, i baneli atgyfeirio EOTAS, yw gwella rheolaeth amser ac aelodaeth ehangach. Gall sefydlu dealltwriaeth o ddiben y Panel, cyn aelodaeth, helpu gwella ymarfer yn ogystal â gwella atebolrwydd a disgwyliadau. Mae Cylch Gorchwyl yn allweddol er mwyn sefydlu trefniadau gwaith. Maent hefyd yn drefniadau mewnol manteision i egluro cwmpas, cyfrifoldebau, amserlenni a chyllidebau.

### Ffurflen Atgyfeirio Gyffredin EOTAS (Atodiad III)

Bydd defnyddio ffurflen atgyfeirio gyffredin yn darparu manteision ar lefel leol a chenedlaethol. At lefel leol, bydd yn helpu sefydlu ffiniau a disgwyliadau ar gyfer y rhai sy'n cyfeirio disgybl ar gyfer darpariaeth EOTAS, yn ogystal â sefydlu ymarfer cyffredin a allai helpu godi ymwybyddiaeth o faterion penodol yn effeithio ar ysgolion a chymunedau yn yr awdurdod.

Mae'r seilwaith ar gyfer casglu data craidd eisoes yn ei le ym mhob ALI, (yn gyffredinol trwy fynediad at ddata SIMS), a gall staff gweinyddol gyflawni'r dasg o

gwblhau ffurflen atgyfeirio gyffredin EOTAS gan eu bod yn rhoi data i mewn i SIMS yn rheolaidd.

Ar lefel genedlaethol, bydd ffurflen atgyfeirio gyffredinol yn helpu sefydlu ymagwedd Cymru Gyfan a fydd yn galluogi gwell monitro o arferion ALI ac yn gallu helpu nodi data nad yw'n cael ei ddefnyddio'n ddigonol ar hyn o bryd fel dangosyddion i arddangos cynnydd disgyblion.

### Cronfa Ddata EOTAS

Mae un ALI eisoes wedi datblygu cronfa ddata i gasglu data ar bob disgybl EOTAS. Datblygwyd y gronfa ddata i wella arferion yn yr ALI sy'n adlewyrchu casgliadau o'r ymchwil hwn. Er enghraifft, cedwir data disgyblion ar wahanol yriannau electronig neu mewn taenlenni ar wahanol fformatau mewn gwahanol adrannau o'r adran addysg. (Atodiad 1)

Mae cael un gronfa ddata yn galluogi swyddogion i weld data ar ddisgyblion mewn un adroddiad canolog i wneud penderfyniadau gwybodus ar sut i addysgu a chefnogi disgyblion. Gall cronfa ddata 'fynd i graidd' proffil i gael dadansoddiad manwl o ddisgybl a ffocysu ar feysydd penodol. Fel offeryn, mae'n rhoi cynrychiolaeth weledol i swyddogion, yn amlygu'r disgyblion hynny sydd fwyaf bregus, a'u galluogi i odi problemau yn gynnar. Mae enghreifftiau o'r data sy'n cael ei storio yn cynnwys presenoldeb, gwaharddiadau, cyrhaeddiad, ymyraethau, asiantaethau eraill, adroddiadau wedi eu sganio ac ati.

Mae'r awdurdod lleol wedi cryfhau ei ddefnydd trwy gynnwys pob disgybl yn yr ALI, yn ogystal â data gan asiantaethau eraill yn gweithio gyda disgyblion unigol. Yng nghalon y system mae asesiad bregusrwydd ble mae proffiliau yn cael eu pwysoli ar ffactorau addysgol a chymdeithasol, fel presenoldeb, hawl i brydau ysgol am ddim, anghenion dysgu atodol a mwy.

Barn y tîm ymchwil yw bod cyflwyno cronfa ddata unigol sy'n cynnwys agweddau megis pwysoli yn erbyn disgyblion i nodi'r rhai mwyaf bregus yn gam pwysig ymlaen. Byddai hyn yn unol â chyhoeddiad Ysgrifennydd y Cabinet ar gyfer Cymunedau a Phlant, Carl Sargeant, yn Ionawr 2017 fod Llywodraeth Cymru yn cefnogi gwaith 'Cymru Well Wales' i sefydlu canolfan i daclo effaith negyddol Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod (ACEs).

Ychwanegodd yr Ysgrifennydd Addysg Kirsty Williams ar adeg y cyhoeddiad fod plant a phobl ifanc gyda lefelau uwch o lesiant yn fwy tebygol ar gyfartaledd i gael lefelau uwch o gyflawniad academaidd.

Mae datblygu cronfa ddata sy'n cynnwys pwysoli sy'n cynrychioli digwyddiadau arwyddocaol ym mywyd disgybl yn gam ymlaen. Mae pwysoli sy'n ystyried digwyddiadau a allai effeithio ar lefelau llesiant emosiynol, ymddygiadol, cymdeithasol ac ysgol, ac felly hefyd lefelau cyflawniad academaidd, yn helpu creu 'maes chwarae cyfartal' ar lefel leol a chenedlaethol. Fel offeryn, gall helpu nodi cynnydd unrhyw ddisgybl, meysydd angen ac arfer da a gweithredu fel system decach ar gyfer meincnodi.

## Llyfryddiaeth

Cohen L., Manion, L. and Morrison, K. (2007) Research methods in education (6th edition). London: Routledge-Falmer.

Children's Commissioner for Wales (2012) Missing Voices: a review of independent professional advocacy services for looked after children and young people, care leavers and children in need in Wales. Swansea.

Equality and Human Rights Commission (EHRC) (2011) How fair is Wales? Equality, human rights and good relations. London: EHRC.

Estyn (2017): Annual Report of the Chief Inspector of Education and Training in Wales 2015-2016 Cardiff: Estyn

Estyn (2016) Education other than at school. Cardiff: Estyn.

Francis, B and Mills, M. (2012) What would a socially just education system look like? Journal of Education Policy, Special Issue 27(5), 577-585.

Jerrim, J. and Shure, N. (2016) Achievement of 15-Year-Olds in Wales: PISA 2015 National Report. London: UCL Institute of Education.

McCluskey, G., Lloyd, G., Riddell, S., Weedon, E., and Fordyce, M. (2013) Evaluation of education provision for children and young people educated outside the school setting Welsh Government Social Research

Ministry of Justice (2016) Review of the Youth Justice System in England and Wales. London: Ministry of Justice. London: HMSO.

Ofsted (1993). Education for Disaffected Pupils. London: HMSO.

OHMCI (Wales) (1996). Review of Educational Provision in Wales 1994-95. London: HMSO.

Ofsted, 2011: Alternative Provision. London: HMSO.

The Education (Pupil Referral Units) (Application of Enactments) (Wales) Regulations 2007. Cardiff: Welsh Assembly Government

Pupil Referral Units, C01(A)/2004. Cardiff: National Assembly for Wales.

Welsh Assembly Government (2006) Inclusion and pupil support, C47/2006.  
Cardiff: National Assembly for Wales.

Welsh Assembly Government (2008) The National Behaviour and Attendance Review Report. Cardiff: Welsh Assembly Government.

Welsh Assembly Government (2011) Review of Education Other Than at School and Action Plan. Cardiff: Welsh Assembly Government.

Welsh Government, (2012) Exclusions from schools and Pupil Referral Units, Guidance document 081/2012. Cardiff: Welsh Government.

Welsh Government (2012) Proposals to improve services in Wales to better meet the needs of children and young people who are at risk of entering, or are already in the Youth Justice System, Green Paper. Cardiff: Welsh Assembly Government.

Welsh Government (2016) Permanent and fixed-term exclusions from schools in Wales, 2014/15. Cardiff: Welsh Assembly Government.

Welsh Government (2016) Young people not in education, employment or training (NEET). Cardiff: Welsh Assembly Government.

Welsh Government (2017) Hub to tackle Adverse Childhood Experiences. Cardiff: Welsh Assembly Government

### ARSYLWADAU PELLACH

Trwy gydol yr adolygiad hwn, roedd yna adegau pan fanteisiodd gweithwyr proffesiynol ar y cyfle i fyfyrion ar bynciau oedd tu allan i gylch gorchwyl y gwaith yma. Fodd bynnag, teimlai'r tîm y dylid cofnodi'r pynciau hyn fel 'arsylwadau pellach' ar gyfer y Grŵp Cyflawni EOTAS i'w hystyried.

### Hyfforddiant ac Adnoddau Arbenigol

Trwy gydol yr adolygiad fe welodd tîm yr adolygiad elfennau tebyg a gwahanol rhwng ymarfer ar draws Cymru, ond yn gyffredinol roedd dulliau pob ALI yn unigryw i brofiadau a gwybodaeth broffesiynol y rhai yn arwain y penderfyniadau EOTAS. Gyda'r gwahaniaethau yng nghefnidiroedd proffesiynol y gweithwyr proffesiynol hynny yn arwain y ddarpariaeth Unedau Cyfeirio Disgyblion/EOTAS, daeth gwahanol lefelau o wybodaeth ac arbenigedd.

Yn ystod yr adolygiad, daeth y tîm yn ymwybodol o ddiffyg hyfforddiant ac adnoddau arbenigol ar gael i weithwyr proffesiynol sy'n arwain y maes arbenigol hwn o addysg ar hyn o bryd ac i'r rhai sy'n awyddus i arwain darpariaeth Unedau Cyfeirio Disgyblion/EOTAS. Trafododd y tîm gydag ymatebwyr (a holodd ble gallent gael mynediad at yr wybodaeth yma), pa gymorth fyddai o fudd. Roedd yr ymatebion yn cynnwys:

- *'...byddai rhyw fath o lawlyfr yn wych... o leiaf byddai gennym well siawns o bawb yn gwneud yr un peth...'*
- *'...byddai rhyw fath o lawlyfr yn rhoi cyfle i ni ei gael yn iawn... byddai hefyd yn ein galluogi i herio disgwyliadau ohonom...'*

Gallai datblygu offeryn a hyfforddiant penodol i gefnogi arweinwyr newydd Unedau Cyfeirio Disgyblion/EOTAS a'r rhai sy'n gobeithio cyflawni'r rolau hyn fod yn ystyriaeth i'r Grŵp Cyflawni EOTAS.

### Fframwaith Archwilio Estyn



Gofynnodd ymatebwyr ai dyma yw'r amser iawn i edrych ar y gwahaniaethau a thebygolrwydd rhwng dangosyddion perfformiad cenedlaethol a Fframwaith Archwilio Estyn.

Disgrifiodd pennaeth un Uned Cyfeirio Disgyblion sut mae'r Fframwaith Archwilio newydd Estyn wedi galluogi ei thîm i arddangos y 'pellter a deithiwyd' gan ddisgyblion yn yr Uned mewn archwiliad diweddar. Cododd hyn y cwestiwn ynghylch y gwahaniaethau rhwng beth mae Estyn yn ei werthfawrogi fel arfer da a beth mae Llywodraeth Cymru yn ei gydnabod fel dangosyddion llwyddiant cenedlaethol, h.y. cyflawniad academaidd. Adroddwyd fod Estyn, dan y Fframwaith Archwilio newydd, yn darparu cyfle i ddangos tystiolaeth o'r 'pellter a deithiwyd' gan ddisgyblion; ond os nad oedd y disgybl hwnnw yn cyflawni'r trothwy L2 neu L2+ ni fyddai ei leoliad yn yr Uned Cyfeirio yn cael ei ddathlu ar lefel genedlaethol fel llwyddiant.

Cwestiynau pellach a gododd yn ystod yr adolygiad oedd priodoldeb defnyddio'r un Fframwaith Archwilio ar gyfer ysgolion prif ffrwd ac Unedau Cyfeirio. Roedd rhai ymatebwyr yn teimlo fod myfyrwyr sy'n mynychu Unedau Cyfeirio Disgyblion a darpariaeth EOTAS yn aml angen lefelau tebyg o gefnogaeth ac yn arddangos cymhlethdod ac amrywiaeth o anghenion a welir weithiau mewn disgyblion yn mynychu ysgolion arbennig. Gofynnodd ymatebwyr a oedd y fframwaith ar gyfer archwilio ysgolion arbennig yn fwy priodol i'w defnyddio wrth archwilio Unedau Cyfeirio ac os dylid ystyried fframwaith archwilio benodol ar gyfer Unedau Cyfeirio/EOTAS?

### **Proffilio Bregusrwydd Disgybl**

Gall offer meddalwedd proffil ymddygiad a bregusrwydd yn arddangos cymhlethdod ac amrywiaeth anghenion disgyblion wneud cyfraniad gwerthfawr i ddeall cynnydd disgyblion a'r rhwystrau i hyn. Mynegodd ymatebwyr bryderon am dangyflawniad deongledig disgyblion yn derbyn darpariaeth EOTAS. Roedd y rhwystredigaethau yn glir ynghylch dangosyddion cenedlaethol cyflawniad disgyblion, gydag angen i adolygu anghenion cymhleth disgyblion sy'n cael eu cyfeirio at Baneli EOTAS a'r diffyg maes chwarae gwastad.

## **Cronfa Ddata, Ffurflen Atgyfeirio Gyffredin a Meincnodi EOTAS**

Roedd ymatebwyr yn glir eu bod yn cefnogi symudiad cenedlaethol i'r holl ALLau yn defnyddio cronfa ddata EOTAS sengl gyda Ffurflen Atgyfeirio Gyffredin EOTAS i Gymru gyfan i gasglu'r data craidd. Gallai ALLau ofyn am ddata atodol sy'n benodol i'w cymunedau ond byddai'r data craidd yn gyffredin i'r holl ALLau. Byddai'r data craidd a gasglwyd yn bwydo i mewn i gronfa ddata EOTAS.

Fel offeryn, byddai un gronfa ddata ALI EOTAS yn galluogi swyddogion i greu adroddiadau cronfa ddata a allai gefnogi gwneud penderfyniadau gwybodus ar sut i addysgu a chefnogi disgyblion. Wrth ychwanegu data i arddangos cymhlethdodau ac amrywiaeth anghenion disgyblion, gallai cronfa ddata o'r fath *'dreiddio'n ddwfn'* a chreu proffil i gael dadansoddiad trylwyr o ddisgybl a ffocysu ar feysydd penodol.

Yn ALI Caerffili, mae partneriaeth wedi ei datblygu rhwng Unedau Cyfeirio/EOTAS a swyddogion MIS i greu cronfa ddata sy'n cynnwys data ar yr holl ddisgyblion EOTAS. Datblygwyd y gronfa ddata, a elwir o fewn yr ALI yn STRIVE (System i Orlhain ac adrodd Bregusrwydd a Nodwyd mewn Addysg) gan swyddogion i wella ymarfer yn yr ALI sy'n adlewyrchu casgliadau o'r ymchwil hwn. Er enghraifft, lleihau data disgyblion a gedwir ar wahanol yriannau electronig neu mewn taenlenni ar wahanol fformatau mewn gwahanol adrannau o'r adran addysg.

Mae'r ALI wedi cryfhau defnydd o STRIVE trwy gynnwys pob disgybl yn yr ALI, yn ogystal â chadw data gan asiantaethau eraill yn gweithio gyda disgyblion unigol. Yng nghalon y system mae asesiad bregusrwydd ble mae proffiliau yn cael eu pwysoli ar ffactorau addysgol a chymdeithasol, fel presenoldeb, hawl i brydau ysgol am ddim, anghenion dysgu atodol a mwy.

Mae cronfa ddata EOTAS Caerffili yn cael ei rheoli gan bersonél MIS gyda phwyntiau 'mewnbynnu gwybodaeth' penodol ar gyfer personél penodedig tu allan i'r tîm MIS.

Gellir cael rhagor o wybodaeth am ddatblygu a defnyddio STRIVE trwy anfon e-bost at Ceri Cole, Prif Swyddog Addysg Caerffili, yn

.

PROSES ATGYFEIRIO EOTAS (2<sup>il</sup> gam)

A oes proses atgyfeirio safonol ar gyfer darpariaeth EOTAS a ddefnyddir yn yr ALI?		
Manteision eich systemau / prosesau presennol	Anfanteision eich systemau / prosesau presennol	
Rhestrwch y 'deilliannau a chwenychir' mwyaf cyffredin a nodwyd gan yr asiantaethau sy'n cyfeirio.	<i>Rhestrwch gymaint ag y gallwch.</i>	
A yw 'deilliannau a chwenychir' yn fesuradwy yn erbyn safonau lleol a chenedlaethol?	<i>Ehangwch ar eich ymateb.</i>	
Pa wybodaeth ddylem gasglu, yn ystod y broses gyfeirio, a allai helpu arddangos cynnydd disgyblion?	<i>Rhestrwch gymaint o ddangosyddion ag yr ystyriwch i fod yn angenrheidiol.</i>	
Manteision posibl ar gyfer casglu 'data craidd' ar y pwynt cyfeirio?	Anfanteision posibl ar gyfer casglu 'data craidd' ar y pwynt cyfeirio?	
Pa fathau o ddarpariaeth EOTAS a gynigir gan yr ALI?		
Sylwadau ychwanegol: <i>nodwch unrhyw sylwadau ac awgrymiadau y teimlwch allai helpu datblygu'r broses atgyfeirio EOTAS?</i>		

## CYLCH GORCHWYL PANEL ATGYFEIRIO EOTAS (ENGHRAIFFT)

### Diben a rôl y Panel EOTAS

- Panel i wneud penderfyniadau yw hwn. Rôl y panel EOTAS hwn yw ystyried yr holl dystiolaeth a gyflwynwyd gan ysgolion wrth ofyn am ddarpariaeth EOTAS ar gyfer disgyblion unigol.
- Nod y panel yw nid yn unig i fodloni'r ddyletswydd a osodwyd ar awdurdodau lleol yn Adran 19 y Ddeddf Addysg 1996, ond i wneud trefniadau ar gyfer darpariaeth EOTAS addas i ddysgwyr nad ydynt bellach yn mynychu'r ysgol am ba bynnag reswm, gan gynnwys (ond nid yn gyfyngedig i) salwch a gwaharddiad

### Aelodaeth o'r Panel

- Nid yw aelodaeth o'r Panel yn gyfyngedig. Mae aelodau yn cynnwys swyddogion addysg, sydd â chyfrifoldeb dros Unedau Cyfeirio a darpariaeth EOTAS, yn ogystal â gweithwyr proffesiynol arweiniol sydd â gwybodaeth o neu â rôl o reoli disgyblion gydag anghenion cymhleth. Gall aelodau gynnwys:
  - penaethiaid ysgolion prif ffrwd
  - gweithwyr cymdeithasol
  - Gweithwyr y GIG (e.e. CAMHS, nyrs ysgol)
  - gweithwyr troseddwr ieuencid
  - heddlu

### Atebolrwydd

- Ar dderbyn penderfyniadau ffurfiol y Panel, mae aelodau yn gyfrifol am adrodd yn ôl i'w sefydliad. Dylid darparu adborth yn electronig, gyda thystiolaeth glir o gadwyni cyfathrebu ac atebolrwydd.

### Dulliau Gweithio

- 'Rota' flynyddol i'r rhai sy'n cadeirio a mynychu Paneli EOTAS misol ar gael ar ... (nodwch ble gellir cael mynediad) ... Paneli EOTAS wedi eu cadeirio gan swyddogion addysg EOTAS arweiniol a phenaethiaid prif ffrwd.
- Darperir cynllunio ac ysgrifenyddiaeth ar gyfer y Panel gan yr awdurdod lleol. Ni rennir penderfyniadau nes y ceir cytundeb ffurfiol arnynt, gall hyn ddigwydd yn ystod y Panel neu o fewn 72 awr wedi cloi cyfarfod y Panel.

- Gall aelodau'r Panel gael mynediad at becynnau cyfeirio electronig wythnos cyn dyddiad y Panel EOTAS. Dylai aelodau wneud nodiadau o gwestiynau ac ystyriaethau ar bob atgyfeiriad i baratoi ar gyfer cyfarfodydd y Panel.
- Argymhellion ar amllder cyfarfodydd Panel
- Rhannu Gwybodaeth ac Adnoddau
- Bydd data atgyfeirio yn cael ei rhannu trwy ..... gofod gwe sy'n hygyrch i aelodau'r Panel EOTAS ac ysgrifenyddiaeth y Panel yn unig. Mae'r gofod gwe wedi ei ddiogelu gyda chyfrinair a'i ddarparu gan .....  
.....
- Bydd cofnodion ffurfiol y Panel yn cael eu cyhoeddi ar y gofod gwe diogel o fewn 72 awr i gloi cyfarfod y Panel.

Diffiniad o Dermau

EOTAS – Addysg Heblaw yn yr Ysgol

ALN – Anghenion Dysgu Ychwanegol

## FFURFLEN ATGYFEIRIO GYFFREDIN EOTAS - ENGHRAIFFT

Ysgogiad dros Atgyfeirio: Meddygol byrdymor / meddygol hirdymor / ymosodedd-trais/ arall			
YSGOL SY'N ATGYFEIRIO		CWBLHAWYD GAN	
		Enw: E-bost:	Dyddiad:
<b>PENNAETH</b>		Llofnodwyd: E-bost:	Dyddiad:
DATA'R DISGYBL			
UPN		Enw'r Disgybl	
Blwyddyn Ysgol		Dyddiad Geni	
Cyfeiriad y Disgybl		Rhyw	
Rhieni / Gofalwyr		Ethnigrwydd	
Cyfrifoldeb Rhieniol gyda		Crefydd	
Materion Amddiffyn Plant Cyfredol		Materion Amddiffyn Plant Blaenorol	
Gwybodaeth Atodol / e.e. EOTAS siblingiaid <b>tystiolaeth wedi atodi</b>			
Cysyniad Teuluol A yw gofalwyr wedi cael hysbysiad o'r atgyfeiriad?	<b>Naddo / Do</b> (os naddo, esboniwch pam, os do a ydynt yn cefnogi'r atgyfeiriad? Dyddiad cysyniad)		
<b>SYLWER:</b> Mae'r adran hon yn darparu gwybodaeth sylfaen y disgybl a gwedd ehangach o strwythur y teulu.			
LEFELAU CYRHAEDDIAD			
<b>SAESNEG</b> Lefel Bresennol – (rhowch dystiolaeth ategol o'r lefel a dyddiadau)	<b>GWYDDONIAETH</b> Lefel Bresennol – (rhowch dystiolaeth ategol o'r lefel a dyddiadau)	<b>MATHEMATEG</b> Lefel Bresennol – (rhowch dystiolaeth ategol o'r lefel a dyddiadau)	<b>Oed Darllen a Deall</b> (rhowch fanylion profion a dyddiadau)
			Darllen      Deall
Gwybodaeth Atodol / e.e. cryfderau a bylchau cwricwlwm y disgybl, gweithgareddau wedi ysgol, clybiau. <b>Dyddiad asesu yn hanfodol</b> – cwricwlwm anffurfiol <b>tystiolaeth wedi atodi</b>			

**SYLWER:** Mae'r adran hon yn cynnig darpariaeth newydd gyda gwybodaeth sylfaenol gyflwyniadol. **Dyddiadau asesu yn allweddol** i ddarparu darlun gwir o gyflawniad y disgybl a deilliannau rhagweladwy'r myfyriwr.

### DIGWYDDIADAU ARWYDDOCAOL

Digwyddiadau Arwyddocaol / e.e. marwolaeth rhiant neu sibling, rhiant neu sibling yn y carchar, salwch hirdymor rhiant neu sibling, gofalwr ifanc ac ati.

**SYLWER:** Mae'r adran hon yn rhoi gwybodaeth sy'n helpu sefydlu dealltwriaeth ehangach o brofiadau bywyd myfyrywr a allai fod wedi effeithio ar eu dysgu.

SEN / ALN		Oes / Na	
SA	SA+	Cyfriflen	SENCO - Cysylltiadau
Darpariaeth: Dyddiad Adolygu:	Darpariaeth: Dyddiad Adolygu:	Darpariaeth: Dyddiad Adolygu:	
PSP	IEP/IBP	Materion Iechyd a Diogelwch	Pryderon Diogelu
<i>Gwybodaeth Atodol / asesiadau ar waith, arsylwadau sylfaenol o batrymau ymddygiad - tystiolaeth wedi atodi</i>			

**SYLWER:** Mae'r adran hon yn rhoi gwybodaeth fydd yn helpu panel atgyfeirio i wneud penderfyniadau wrth neilltuo adnoddau priodol i gefnogi anghenion dysgu.

### PRESENOLDEB (% 3 tymor blaenorol)

<b>Tymor 1 -</b>	<b>Gwir</b>	<b>Abs Awdurdodedig</b>	<b>Abs Heb ei Awdurdodi</b>
<b>Tymor 2 -</b>	<b>Gwir</b>	<b>Abs Awdurdodedig</b>	<b>Abs Heb ei Awdurdodi</b>
<b>Tymor 3 -</b>	<b>Gwir</b>	<b>Abs Awdurdodedig</b>	<b>Abs Heb ei Awdurdodi</b>
<b>Swyddog Lles Addysg</b>	<b>Enw</b>	<b>E-bost</b>	
<i>Gwybodaeth Atodol / e.e. materion presenoldeb, ymyraethau a ddefnyddiwyd tystiolaeth wedi atodi</i>			

**SYLWER:** Mae'r adran hon yn rhoi gwybodaeth fydd yn helpu panel atgyfeirio i wneud penderfyniadau



wrth neilltuo adnoddau priodol

### GWAITH AMLASIANTAETHOL A DOGFENNAU ATEGOL

Asiantaeth / gwasanaeth	Gweithiwr Proffesiynol Cysylltiedig	Manylion cyswllt	Dogfennau/Adroddiadau	Atodwyd
				Do / Naddo
				Do / Naddo
				Do / Naddo
				Do / Naddo
				Do / Naddo
<i>Gwybodaeth Atodol / e.e. clybiau, sefydliadau tystiolaeth wedi atodi</i>				

**SYLWER:** Mae'r adran hon yn rhoi gwybodaeth a fydd yn helpu cydlynu gwaith amlasiantaethol ac adrodd yn ogystal â darparu gwybodaeth am 'ddysgu anffurfiol' sy'n gallu helpu nodi cryfderau myfyrwyr tu allan i'r ystafell ddosbarth

### GWYBODAETH ATGYFEIRIO

Pam ydych chi'n atgyfeirio'r disgybl yma i EOTAS?		
Deilliannau a chwenychir o'r ymyrraeth EOTAS.		
<b>GWAHARDDIADAU</b> <i>Rhowch adroddiadau ar gyfer pob gwaharddiad</i>	<i>Hyd</i>	<u>Oherwydd:</u>
	<i>Hyd</i>	<u>Oherwydd:</u>
	<i>Hyd</i>	<u>Oherwydd:</u>

**SYLWER:** Mae'r adran hon yn darparu gwybodaeth a fydd yn amlygu a helpu sefydlu cysylltiadau clir rhwng rhesymau dros atgyfeirio, deilliannau a chwenychir a dangosyddion llwyddiant cenedlaethol.



## DISGYBLION GYDAG YMDDYGIAD YMOSODOL / TREISGAR

Gwybodaeth atodol a fydd yn cefnogi anghenion disgyblion. Rhowch enghreifftiau i gefnogi eich ymatebion

*Ysgogiadau ymddygiad heriol.*

*Strategaethau rheoli ymddygiad llwyddiannus.*

*Perthynas gyda chyfoedion.*

*Yn gallu bod yn dawel dan bwysau.*

*Gweithio mewn partneriaeth rhwng ysgolion a rhieni/gofalwyr.*

*Perthynas gydag oedolion, tu fewn a thu allan i addysg.*

*Yn parhau i ymdrechu hyd yn oed dan anhawster...*

*Lefel ymwybyddiaeth o ymddygiad neu anawsterau agwedd.*

*Parodrwydd i weithio gyda gweithwyr proffesiynol ac asiantaethau i wneud newidiadau.*

**SYLWER:** Mae'r adran hon yn darparu gwybodaeth a fydd yn helpu datblygu dealltwriaeth ehangach o ymddygiad myfyriwr a fydd yn galluogi gwneud penderfyniadau atgyfeirio gwell o ran diogelu ac asesiadau risg. Bydd gwybodaeth hefyd yn helpu lleihau dyblygiad o ymyraethau gan arbed amser ac arian.